

# Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol

22 Medi 2021

Yn Bresennol: Y Cynghorydd K Doolin (Cadeirydd)

Dr M Havard, Mrs J James, Mr G Jones (Dirprwyo), Cynghorydd PJ Morgan a'r Cynghorydd S Yelland

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 11.05am)

## 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd ML Evans, Cynghorydd P Harries, Dr R Plummer a'r Cynghorydd A Wilcox. Roedd Mr G Jones yn dirprwyo ar ran Dr Plummer.

## 2. Datgan Buddiannau

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 23ain o Fehefin 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 23ain o Fehefin 2021.

## 4. Adroddiad Blynyddol Archaeoleg 2020-2021

Roedd yr adroddiad Blynyddol Archaeoleg yn cyflwyno'r gweithgaredd oedd yn ymwneud ag archaeoleg a gyflawnwyd ar ran yr Awdurdod yn ystod blwyddyn ariannol 2020 – 2021. Yn dilyn adborth gan yr Aelodau ar adroddiad 2019/20, roedd yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor wedi'i gydweddu i raddau mwy â'r mesurau a gynhwysir yn y Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau cyfredol, ac yn disgrifio'r camau ymlaen a gymerwyd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Archaeoleg 2020 – 2024. Er gwaethaf effaith y pandemig COVID-19, llwyddwyd i gyflawni llawer er bod rhai agweddau o'r rhaglen waith wedi'u haddasu i gael eu cyflwyno'n ddigidol. Roedd yr Archeolegydd Cymunedol hefyd yn falch o ddweud bod y gwaith cloddio y bu'n rhaid ei ohirio yn 2020 wedi'i wneud yn ystod 2021.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am adroddiad cynhwysfawr, ac roeddent yn falch o weld y dulliau arloesol a ddefnyddiwyd i gyflawni gweithgareddau, yn enwedig yr hyfforddiant ar-lein ac ymgysylltu â'r gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, nodwyd bod digon eto i'w gyflawni. Cytunodd y Swyddog bod y Cynllun Gweithredu yn uchelgeisiol, ond bod



hwn yn Gynllun 5 mlynedd ac y byddai agweddau eraill o'r Cynllun yn cael eu blaenoriaethu dros fisoedd y gaeaf.

Hefyd mynegwyd pryder ynghylch y difrod a achosir i safleoedd archaeolegol gan aelodau'r cyhoedd - yn fwriadol ac yn anfwriadol - a gofynnodd yr Aelodau pa gamau oedd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn. Roedd y swyddog wedi tynnu sylw at y cyhoeddusrwydd a roddwyd ar ffurf cyfweiliadau, datganiadau i'r wasg a chyhoeddi gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â mwy o fonitro'r safleoedd a chysylltu ag asiantaethau eraill oedd â'r pwerau i fynd i'r afael â'r ymddygiad negyddol hwn. Roedd gwaith hefyd yn cael ei wneud gyda'r ysgolion, a'r gobaith oedd y byddai'r wybodaeth yn cael ei throsglwyddo gan y plant i'w teuluoedd a'r gymuned ehangach. Cytunodd yr Aelodau bod neges yr Awdurdod 'Troediwch yn ysgafn' yn bwysig i bob agwedd ar ei waith, nid yn unig o ran yr agweddau mwy amlwg megis taflu sbwriel a'r niwed i fywyd gwyllt.

## **Nodwyd.**

### **5. Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod yn Diwedd y 31<sup>ain</sup> o Orffennaf 2021**

Roedd yr adroddiad perfformiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2020/21. Roedd y Cynllun hwn yn dilyn dulliau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sydd â saith o amcanion llesiant, ac adran ychwanegol oedd yn cyflwyno gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu. Roedd y gweithgareddau oedd yn ymateb i'r adferiad ar ôl Covid 19 wedi'u prif-ffrydio yn y ffrydiau gwaith o dan pob un o'r Amcanion Llesiant.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 31 Gorffennaf 2021 o ran data misol ac ystadegau chwarter 1 (Ebrill – Mehefin), gan fynd ymlaen i dynnu sylw at ystadegau perthnasol o ran gwaith y gwahanol dimau ac adrannau'r Awdurdod.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am adroddiad cynhwysfawr oedd yn dangos cynnydd da ar draws yr Awdurdod. Gofynnwyd am ddiweddariad pellach ar y camau lliniaru i sicrhau bod yr Awdurdod yn cwrdd â'r terfynau amser o ran ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau Mynediad Testun ac o ran recriwtio Rheolwr Gweithrediadau. Hefyd gofynnwyd am eglurhad ynglŷn ag adrodd am ddigwyddiadau o dan RIDDOR (Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013) oedd yn ymwneud ag aelodau'r cyhoedd.

O ran y Rheoliadau hyn, cadarnhawyd pe bai aelod o'r cyhoedd wedi'i anafu ac yn cael ei gludo i'r ysbyty o ganlyniad, bod angen rhoi gwybod am y digwyddiad, fel y digwyddodd yn yr achos dan sylw. O ran y terfynau amser a fethwyd, byddai nodiadau atgoffa ychwanegol yn cael



eu dosbarthu yn y dyfodol, a byddai cyfarfod yn cael ei drefnu gydag Arweinyddion Tîm i'w hatgoffa o'r broses a darparu hyfforddiant ychwanegol.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr nad oedd y broses o recriwtio Rheolwr Gweithrediadau wedi'i chynnal oherwydd bod strwythur y sefydliad yn cael ei adolygu. Fodd bynnag, roedd yr arbedion cyflog wedi'u defnyddio i gyflogi'r Wardeniaid Tymhorol am gyfnod hirach, er mwyn gallu clirio'r ôl-groniad o waith a achoswyd gan y cyfyngiadau COVID. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc bod Swyddog Cynllunio newydd wedi cychwyn ers pythefnos a'i fod yn ychwanegiad da i'r tîm, oedd bellach â phob swydd wedi'u llenwi.

## **Nodwyd.**

### **6. Cofrestr Risg**

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Gofrestr Risg ddiweddaraf. Dywedodd y Rheolwr Cyllid bod y Timau Rheoli ac Arweinyddiaeth wedi adolygu'r gofrestr risg, ac amlygwyd y newidiadau a wnaed ers yr adroddiad blaenorol. Nodwyd o ran y cyllido bod yr incwm, yn y Canolfannau ac yn y meysydd parcio, yn uwch na'r gyllideb oedd wedi golygu bod llai o risg yn y tymor byr.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am gymryd eu sylwadau blaenorol i ystyriaeth ac am y wybodaeth ddiweddaraf a gyflwynwyd. Roedd natur ddifrifol y risg ariannol yn y tymor canolig i hir wedi'i gydnabod, ond roedd yr Aelodau yn hapus â'r camau lliniaru a gymerwyd a'r perfformiad cyllidebol rhagorol yn y flwyddyn gyfredol. O ran Risg 42, cyflwyno Microsoft 365, dywedodd y Rheolwr Cyllid bod swyddogion wedi derbyn rhywfaint o hyfforddiant ac y byddai aelod newydd o staff yn ymuno yn yr wythnosau nesaf i gynorthwyo gyda'r gwaith o weithredu'r system newydd. Yn olaf, nododd un Aelod ei bod wedi cael gair ag Archwilydd Mewnol yr Awdurdod fel rhan o'r adolygiad o'r Gofrestr Risg a'i bod yn edrych ymlaen at y gweithdy sydd i'w gynnal ar y pwnc hwn yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

## **Nodwyd**

### **7. Grŵp Gwelliant Parhaus: dirprwyo materion**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu dirprwyo i'r Grŵp Gwella Parhaus i'w hystyried.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2021 heb eu diwygio.
---

